Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):
## Crynodeb o'r Bil

Gorffennaf 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Manon.George@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):
## Crynodeb o'r Bil

Gorffennaf 2019

**Awduron:**
Manon George

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r papur ymchwil hwn yn rhoi crynodeb o'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Mae'n cynnwys crynodeb o brif elfennau'r Bil a'r ymateb iddo, gan gynnwys safbwyntiau Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

# Cynnwys

**Cyflwyniad .......... 1**

**Cefndir y Bil.......... 2**

Ymgynghoriad .......... 2

Cynnwys Llywodraeth Cymru .......... 4

Cymhwysedd deddfwriaethol .......... 5

**Prif elfennau'r Bil .......... 6**

Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil .......... 10

**Ymateb i'r Bil .......... 11**

Safbwynt Llywodraeth Cymru .......... 11

Safbwynt y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol........12

**Y camau nesaf ..........15**

**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

# Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Bil Comisiwn y Cynulliad, yn y Cynulliad ar 12 Chwefror 2019 gan Elin Jones AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol, yn rhinwedd ei swydd fel y Llywydd.

Diben y Bil yw:

- ailenwi'r Cynulliad yn "Senedd" a gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol;
- gostwng yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad i 16, a gwneud newidiadau cysylltiedig i'r trefniadau cofrestru etholiadol;
- gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig;
- gwneud newidiadau i'r rheolau ar anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad;
- estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddiben gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith; ac
- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

Cyfeiriodd y **Pwyllgor Busnes** y Bil i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i drafod ei egwyddorion cyffredinol.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ar 28 Mehefin.

Ar 28 Mehefin, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad Cyfnod 1.**

Trafododd y Pwyllgor Cyllid y Bil hefyd, a chyflwynodd **adroddiad** ar ei oblygiadau ariannol ar 28 Mehefin.

# Cefndir y Bil

Mae'r Bil hwn yn rhan o raglen diwygio etholiadol Comisiwn y Cynulliad. Yn wreiddiol, disgwyliwyd y byddai ail Fil i wneud darpariaeth ar gyfer cynyddu maint y Cynulliad a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r system etholiadol. Fodd bynnag, ar 10 Mehefin, **ysgrifennodd y Llywydd at holl Aelodau'r Cynulliad** yn eu hysbysu bod Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n bosibl deddfu ar ail gam y rhaglen diwygio etholiadol yn y Cynulliad presennol.

## Ymgynghoriad

Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn seiliedig ar argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan **y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** ar 12 Rhagfyr 2017, ac a oedd yn destun **ymgynghoriad** rhwng 12 Chwefror a 6 Ebrill 2018. Cyhoeddwyd **adroddiad ymgynghori llawn** ym mis Hydref 2018.

Sefydlwyd y Panel Arbenigol gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Chwefror 2017 i roi cyngor gwleidyddol diduedd ar faint y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Comisiwn y Pumed Cynulliad ym mis Tachwedd 2016 ei fod yn bwriadu edrych ar ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad i fynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad yn dilyn adroddiad ei ragflaenydd ym mis Ionawr 2015 ynghylch **Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru** a ddaeth i'r casgliad canlynol: "gyda dim ond 60 o Aelodau, mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cenedlaethol ond mae gormod o bwysau yn cael ei roi arno".

O ran newid enw'r Cynulliad, cyhoeddwyd **ymgynghoriad** Comisiwn y Cynulliad ar y pwnc hwn ym mis Rhagfyr 2016. Roedd 60.9 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad y "dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw". Mewn ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad ar ba enw fyddai'n disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Cynulliad orau, atebodd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- roedd 73 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 69 y cant o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Senedd Cymru" a "Parliament of Wales" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 53 y cant o'r farn y byddai enw uniaith, sef "Senedd" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol; ac
- roedd 38 y cant o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a "National Assembly for Wales" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mehefin 2017 ei fod wedi cytuno i ddeddfu i newid enw'r Cynulliad i "Senedd Cymru/Welsh Parliament". Fodd bynnag, ar 12 Tachwedd 2018 mewn **llythyr** at holl Aelodau'r Cynulliad, cyhoeddodd y Llywydd ei bod wedi penderfynu mai'r enw uniaith, "Senedd", fydd yr enw newydd ac mai'r enw ar gyfer yr Aelodau fydd "Aelodau'r Senedd/Members of the Senedd". Mae'r llythyr yn nodi y cytunodd Comisiynwyr y Cynulliad, mewn cyfarfod ar 5 Tachwedd 2018, y dylai'r Llywydd, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, benderfynu ar enw'r Cynulliad a'r ffordd y cyfeirir at yr Aelodau.

O ran gostwng yr oedran pleidleisio, **ymgynghorodd** y Cynulliad ar y mater hwn rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2016 a chanfu fod 53 y cant o'r 10,375 a gymerodd ran o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.

Hefyd, **ymgynghorodd** Llywodraeth Cymru ar estyn yr etholfraint i gynnwys yr holl bobl sy'n 16 oed ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru fel rhan o'i hymgynghoriad ar ddiwygio etholiadau lleol yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2017. Mae'r **ddogfen ymgynghori'n** nodi'r canlynol:

> Bu'n bolisi gan Lywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn i ostwng yr oed pleidleisio i 16, ac yn wir fe bleidleisiodd y Cynulliad o blaid hyn gyda mwyafrif clir ym mis Mai 2013. At hynny, cynhwyswyd y polisi ym maniffesto'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Etholiad Cyffredinol. Dylem fod mewn sefyllfa i weithredu hyn yn fuan.

Argymhellodd **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol** Comisiwn y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2017 y dylid gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 ac i hyn fod ar waith o'r etholiad yn 2021 (Argymhelliad 14). Yn ôl y Panel:

> Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried yn awgrymu y byddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc. At hynny, pe byddai Llywodraeth Cymru yn deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru o 2022 ymlaen, byddai'n anghyson iawn, ac yn codi materion gwleidyddol a gweinyddol ychwanegol, pe na byddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng ar

> gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen hefyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod etholiadau sy'n cael mwy o sylw yn fwy tebygol o arwain at gynnydd yn y gyfran sy'n pleidleisio; felly mae'n ddymunol, pe byddai'r etholfraint yn cael ei hymestyn yng Nghymru, ei bod yn cael ei defnyddio gyntaf yn etholiad y Cynulliad, gan fod hwnnw'n denu mwy o sylw. [Paragraff 15.39 o'r adroddiad]

Hefyd, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad y "dylai unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio gael ei gyflwyno law yn llaw ag addysg briodol, effeithiol ac amhleidiol o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth".

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn esbonio nad ystyriwyd bod modd ymgynghori ar Fil drafft yn ymwneud â'r darpariaethau pleidleisiau yn 16 oed:

> Nid oedd modd cynnwys testun y darpariaethau drafft yn yr ymgynghoriad dilynol yn ceisio barn am argymhellion y Panel Arbenigol, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad. Byddai'r amserlenni ar gyfer datblygu darpariaethau o'r fath wedi achosi oedi sylweddol i'r ymgynghoriad, ac ni fyddai modd i'r ddeddfwriaeth ofynnol fod ar waith erbyn etholiad y Cynulliad yn 2021. Yn lle hynny, bu'r Comisiwn yn cydweithio'n agos ag amryw randdeiliaid i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon a bu eu safbwyntiau'n allweddol wrth baratoi darpariaethau'r Bil. Roedd hyn yn cynnwys deialog reolaidd â phleidiau gwleidyddol trwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil a cheisio barn rhanddeiliaid allanol yn enwedig y rheini ag arbenigedd ar faterion etholiadol. Yn ychwanegol at hyn, cafodd Aelodau Cynulliad unigol a'r cyhoedd y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau polisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Bil drwy gyfrwng datganiadau rheolaidd a chyhoeddiadau.

## Cynnwys Llywodraeth Cymru

Cydweithiodd Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â gostwng yr oedran pleidleisio isaf. Mewn **llythyr** at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 13 Chwefror, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn "falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r Llywydd ddatblygu'r darpariaethau etholfraint yn y Bil, gan ystyried y cysylltiadau â'n deddfwriaeth ni ein hunain, sydd ar fin ymddangos, sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol".

Drafftiwyd **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru a chytunwyd arno i reoli'r ffordd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.



**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

## Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn rhoi pŵer i'r Cynulliad newid enw'r Cynulliad a gwneud darpariaethau ynghylch etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol.

Mae paragraff 14 o'r **Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan y canlynol:

> Ni ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil yn dod o fewn unrhyw rai o'r cymalau cadw yn Atodlen 7A. Diben cyffredinol y Bil yw gwella hygyrchedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i drefniadau gweithredol er mwyn ei wneud yn ddeddfwrfa fwy effeithiol i bobl Cymru.

Cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd **ddatganiad** ar 12 Chwefror yn cadarnhau, yn ei barn hi, y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

# Prif elfennau'r Bil

Mae'r Bil wedi'i rannu yn chwe Rhan sy'n cynnwys 41 o adrannau a dwy Atodlen.

Mae **Rhan 2** o'r Bil yn gwneud darpariaeth i enw'r Cynulliad gael ei newid i'r enw uniaith "Senedd" erbyn 6 Mai 2020, ac yn gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol. Er enghraifft, bydd yr Aelodau'n cael eu galw'n "Aelodau'r Senedd / Members of the Senedd" a chaiff Deddfau'r Cynulliad eu galw'n "Ddeddfau'r Senedd / Acts of the Senedd".

Mae'r Bil hefyd yn darparu y gellir galw'r "Senedd" yn "Welsh Parliament" hefyd. Mae paragraff 122 o Femorandwm Esboniadol y Bil yn nodi fel a ganlyn:

> Rhagwelir y bydd "Welsh Parliament" hefyd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r enw "Senedd" ar arwyddion a mathau eraill o wybodaeth gyhoeddus i helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ystyr yr enw newydd.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai ailenwi'r Cynulliad yn "Senedd" yn "adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol a'i gyfrifoldebau i'r hyn ydyw heddiw, sef senedd genedlaethol", a'i fod yn:

> ...gyfle gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac i annog ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd.

Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i roi effaith i'r enw newydd. Mae adran 9 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 9 sy'n rhestru'r holl newidiadau i Ddeddf 2006. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn newid y term "Assembly" lle y mae'n ymddangos gyntaf yn adran 1(1) o'r Ddeddf. Yn lle hynny, mae'n diwygio'r adran fel a ganlyn:

> There is to be an Assembly for Wales to be known as the Senedd.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn dweud nad yw gadael y gair "Assembly" yn y ddeddfwriaeth yn "ddelfrydol", ond mae'n nodi mai'r sefyllfa ddiofyn o dan Ddeddf 2006 yw na chaiff y Cynulliad ddiwygio'r Ddeddf ei hun, ar wahân i rai eithriadau datganedig.

Mae **Rhan 3** o'r Bil yn gwneud newidiadau i'r gyfraith etholiadol i alluogi pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys newidiadau o ran y gofrestr etholiadol, y broses ganfasio flynyddol a diogelu gwybodaeth pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:



**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

- ychwanegu personau 16 a 17 oed at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol a galluogi pobl ifanc 14 a 15 oed a fydd yn troi'n 16 oed yn ystod y cyfnod y mae'r gofrestr mewn grym i gofrestru i bleidleisio fel cyrhaeddwr;
- gwneud darpariaethau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth am bobl ifanc;
- caniatáu i Blant sy'n Derbyn Gofal gofrestru i bleidleisio yng Nghymru yn yr ardal lle mae ganddynt y cysylltiad cryfaf;
- caniatáu i bersonau dan 18 oed gael eu hystyried ar gyfer cymhwyster gwasanaeth fel unigolyn, gan eu galluogi i gael eu cofrestru fel etholwr sy'n byw dramor; a
- galluogi personau 16 a 17 oed i weithredu fel dirprwy.

Mae **Rhan 3** hefyd yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig, ac mae'n gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i unrhyw argymhellion sy'n berthnasol iddo drwy osod adroddiad gerbron y Senedd.

Mae paragraff 220 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r ddarpariaeth yn gyfle i'r Cynulliad ystyried materion megis:

- cost rheoleiddio etholiadau a refferenda datganoledig Cymru;
- cyllido costau o'r fath gan y Cynulliad;
- sut y byddai'r arian sy'n ofynnol i dalu costau o'r fath yn cael ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad;
- y trefniadau i alluogi'r Cynulliad i ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru; a
- sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 223 o'r Memorandwm Esboniadol, nid yw'r Bil yn nodi sut y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol:

> Er ei bod yn briodol bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried sut y dylai swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol weithredu mewn perthynas â Chymru, ni ystyrir ei bod yn briodol pennu sut y dylid gwneud hyn. Yn hytrach, mae'r Bil yn pennu y caiff y Senedd wneud darpariaeth o fewn ei Rheolau Sefydlog ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd. Mae'r Bil yn darparu y caiff unrhyw ddarpariaethau o'r fath a wneir o fewn y Rheolau Sefydlog ddirprwyo swyddogaethau i'r

> Llywydd, i bwyllgor neu i is-bwyllgor o'r Cynulliad.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 11 Mawrth, dywedodd y Llywydd ei bod yn tybio y byddai'r adran hon o'r Bil yn cael ei diwygio yng Nghyfnod 2 i roi mwy o eglurder ynghylch trefniadau atebolrwydd a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol.

Mae **Rhan 4 o'r Bil** yn gwneud newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad. Mae'r newidiadau hyn yn gweithredu **argymhellion ar gyfer newid deddfwriaethol** mewn perthynas â'r rheolau ynghylch anghymwyso a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae adran 29 o'r Bil yn gwneud y canlynol:

- anghymhwyso Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad, er bod eithriadau rhag anghymwyso ar gyfer Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol o'r Tŷ;
- anghymhwyso Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel Siryfion ar gyfer ardaloedd o Gymru rhag bod yn Aelodau o'r Cynulliad;
- nodi'r holl anghymwysiadau rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad mewn Atodlen newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- newid y ffordd y mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ymdrin ag anghymhwyso'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn iddynt gael eu trin ar yr un sail â swyddi eraill a benodir yn gyhoeddus yng Nghymru; a
- sefydlu dau gategori penodol o anghymwysiadau drwy wahaniaethu rhwng amgylchiadau sy'n anghymhwyso rhywun rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer y Cynulliad a swyddi sy'n anghymhwyso rhywun rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad, ond nid rhag bod yn ymgeisydd.

Byddai'r trefniadau anghymhwyso newydd yn dod i rym ar gyfer etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021.

Yn ôl paragraff 63 ym Memorandwm Esboniadol y Bil, sy'n sôn am y newidiadau hyn:

> ...dylai hyn gael gwared ar rai rhwystrau rhag sefyll etholiadau a galluogi mwy o bobl i sefyll etholiad oherwydd ni fydd yn rhaid iddynt roi'r gorau i'w gwaith i wneud hynny. Y nod yw y gallai lleihau'r rhwystrau rhag sefyll etholiad arwain at gynnydd posibl yn amrywiaeth y gynrychiolaeth yn ogystal ag at broses fwy effeithiol.





Mae **Rhan 5** o'r Bil yn gwneud darpariaethau amrywiol.

Mae adran 35 yn estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg, yn unol â'r trefniadau yn Senedd yr Alban.

Mae adran 36 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr.

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr y **prosiect diwygio cyfraith etholiadol** ar 19 Gorffennaf 2011. Mae ei gwmpas yn cynnwys y gyfraith, troseddau a heriau cyfreithiol o ran gweinyddu etholiadau. Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Chwefror 2016. Diben yr argymhellion oedd symleiddio'r trefniadau gweinyddol yn ymwneud ag etholiadau a safoni'r trefniadau hynny ar draws pedair rhan y DU.

Yn ôl paragraff 235 o Femorandwm Esboniadol y Bil:

> Mae'r meysydd hyn yn bwysig, ac efallai y bydd y Cynulliad am ystyried, maes o law, a ddylid gweithredu'r argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith etholiadol a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru. Felly, mae'r Bil yn diwygio adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud y fath is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n rhoi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith.

Mae adran 37 o'r Bil yn egluro y caiff Comisiwn y Cynulliad godi tâl am ddarparu gwasanaethau (yn ogystal â nwyddau) nad ydynt yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau.

Mae paragraff 80 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod angen eglurhad o'r fath oherwydd bod y darpariaethau presennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn:

> ... amwys, gan eu bod yn cyfeirio at werthu nwyddau a darparu gwasanaethau (yn hytrach na'u gwerthu). O ganlyniad, nid yw'n glir a yw'r Cynulliad yn gallu codi tâl am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau, er enghraifft ffilmio ar ystâd y Cynulliad.

## Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Cyhoeddodd y Llywydd Femorandwm Esboniadol ochr yn ochr â'r Bil. Mae hyn yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n manylu ar yr opsiynau polisi a ystyriodd Comisiwn y Cynulliad a'r costau a'r manteision cysylltiedig o wneud y ddeddfwriaeth; asesiadau effaith eraill sy'n ystyried effaith y Bil ar grwpiau ac ardaloedd penodol; a Nodiadau Esboniadol ar gyfer pob adran o'r Bil.





# Ymateb i'r Bil

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mewn **llythyr** at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dyddiedig 13 Chwefror, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y gallai'r newid enw arfaethedig:

> ychwanegu at y penbleth sy'n bodoli eisoes ynghylch enwau ein sefydliadau, yn hytrach na lleihau'r penbleth hwnnw. Mae hyn yn hynod bwysig gan ystyried bod y diwygiadau a gynigir yn rhai i'n statud cyfansoddiadol allweddol.

Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn poeni y gallai defnyddio "Senedd" ar ei ben ei hun heb unrhyw awgrym arall o'i gysylltiad tiriogaethol â Chymru arwain at faterion hygyrchedd. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ddiwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel a ganlyn:

> "(1) There is a parliament for Wales to be known as [x]."

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'n fanteisiol dewis "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" cyn "Senedd" ac y byddai'r opsiwn hwn yn ymateb i'w phryderon ynglŷn â'r cysylltiad tiriogaethol.

O ran estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, mae Llywodraeth Cymru **"yn gwbl gefnogol i'r"** cynnig hwn. Yn ei lythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dyddiedig 13 Chwefror, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yw y "dylai'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad fod yn gyson â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei estyn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol." Am y rheswm hwn, hoffai Llywodraeth Cymru hefyd i'r Bil hwn newid yr etholfraint i gynnwys gwladolion tramor sy'n byw yng Nghymru yn gyfreithlon. Yn yr un modd, mae llythyr y Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r "egwyddor o roi'r bleidlais i garcharorion".

O ran y cynigion yn y Bil ar gyfer ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr dyddiedig 13 Chwefror y dylid gosod hyn ar "sylfaen ffurfiol" am fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig. Yn ôl y Cwnsler Cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn:

> … barod i weithio gyda'r Llywydd fel yr Aelod Cyfrifol, y Comisiwn Etholiadol a Thrysorlys EM, yng ngoleuni craffu Cyfnod 1, i ystyried a fyddai modd cyflwyno diwygiadau i gyflawni hyn. Byddai'r diwygiadau hyn yn drech na'r ddyletswydd bresennol a gynigir yn y Bil i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymreig, ac yn ei disodli.

O ran galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr dyddiedig 13 Chwefror nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn "briodol i barhau ymhellach ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, na chreu disgwyliad amdanynt". Esboniodd fod pryderon ynghylch y ffordd y drafftiwyd y darpariaethau oherwydd "y modd y byddant yn rhyngweithio â phwerau sy'n bodoli eisoes a phwerau sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol". Yn hytrach na deddfu ar gyfer y darpariaethau hyn yn y Bil dan sylw, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, os yw'n cefnogi argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio, y dylid cyflwyno'r rhain drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

## Safbwynt y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1 o broses ddeddfu'r Cynulliad.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 27 Chwefror a 12 Ebrill. Cafodd 639 o ymatebion (yr oedd dros 600 ohonynt yn rhan o ymgyrch ar y newid enw). Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan nifer o randdeiliaid, a chynhaliodd sesiynau craffu gyda'r Llywydd fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Cwnsler Cyffredinol Cymru a'r Gweinidog Addysg.

Yn ogystal, casglodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Cynulliad safbwyntiau pobl ifanc ar draws Cymru ar ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i 16 a'r angen am addysg gysylltiedig am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth. Casglwyd safbwyntiau drwy fwrdd trafod ar-lein o'r enw Senedd Dialogue ac yn ystod sesiynau grŵp ffocws gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid.

Yn ei Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, gwnaeth y Pwyllgor 19 o argymhellion. Yn hollbwysig, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Dyma brif argymhellion y Pwyllgor:





- Os yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu cyflwyno gwelliannau i'r Bil fel bod adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darllen fel a ganlyn, "There is a parliament for Wales to be known as [x]", dylai ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno Gorchymyn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf 2006 i osgoi unrhyw amheuaeth am gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddiwygio'r geiriau, "There is to be an Assembly for Wales to be known as" yn adran 1(1) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, ni fynegodd y Pwyllgor farn am enw dewisol gan ei fod yn credu y dylai hwn fod yn fater i'r Cynulliad cyfan.
- Dylai'r Gweinidog Addysg gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn esbonio sut y caiff addysg am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth ei chyflwyno mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith y cafodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth yn awgrymu y dylid cyflwyno addysg briodol i gyd-fynd ag estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 52 o'r Memorandwm Esboniadol, nid yw'r Bil yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen am addysg. Yn lle hynny, nodir y bydd "ymgyrchoedd addysg wleidyddol a gwybodaeth gyhoeddus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn cael eu cynnal yr un pryd â'r newid yn yr oedran pleidleisio" ac y bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r grŵp rhanddeiliaid a sefydlwyd i wneud y gwaith hwn "lunio cynllun gweithredu ar gyfer cyd-gysylltu'r holl waith sy'n gysylltiedig â pharatoi deunyddiau addysgol a chodi ymwybyddiaeth".
- Dylid diwygio'r Bil i ddileu'r adran sy'n ymwneud â goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cytuno, fel mater o egwyddor, y dylai'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru fod yn atebol i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae o'r farn y dylai trefniadau goruchwylio fod wedi'u cynnwys yn y Bil wrth ei gyflwyno, yn hytrach na chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2. Felly, yn lle hynny, mae'n credu y dylid cynnwys y trefniadau yn y Bil llywodraeth leol sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu gwneud gwaith craffu llawn ar y darpariaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru fodloni eu hunain bod yr anghymwysiadau rhag aelodaeth o'r Cynulliad a nodir yn yr Atodlen 1 newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn briodol. Mae hyn yn ymwneud â safbwynt Llywodraeth Cymru bod gwaith i'w wneud mewn perthynas â'r rhan hon o'r Bil a phryderon a godwyd gan randdeiliaid ynglŷn â'r angen i sicrhau cysondeb o ran y swyddi a restrir fel rhai nad ydynt yn gydnaws â sefyll etholiad.

- Dylai'r Llywydd ddiwygio'r Bil i ddileu'r adran sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chyfraith etholiadol. Clywodd y Pwyllgor bryderon gan dystion ynglŷn ag ehangder y pŵer hwn a byddai'n gochel rhag defnyddio is-ddeddfwriaeth i weithredu newidiadau polisi sylweddol.



**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

# Y camau nesaf

Cynhelir dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 10 Gorffennaf.

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i'w ddadl Cyfnod 1, ac os bydd Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol, bydd yn ddarostyngedig i welliannau gan Bwyllgor y Cynulliad Cyfan yng Nghyfnod 2. Y dyddiad a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cwblhau'r cyfnod hwn yw 11 Hydref.

Yna, caiff holl Aelodau'r Cynulliad wneud rhagor o welliannau i'r Bil yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn pleidlais derfynol ynghylch pasio'r ddeddfwriaeth.